llyfrau yn y Gymraeg a chyhoeddiadau eraill a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r henwlad, neu â phynciau addysgol. Heb os nac oni bai, gŵr a fentrodd gyhoeddi ydoedd J. E. Southall. Ymboenai ei fam Elizabeth Trusted yn enbyd amdano. Cynigir tystiolaeth o'r ffynhonnell sy'n ymwneud â theulu'r Southall, ar gael yn Archifdy Henffordd a Chaerwrangon, i'r perwyl fod John wastad yn boen i'w deulu. Cyfeiria ei fam ato yn ei dyddiadur fel, *'my poor John'* ac y mae'n synio amdano fel gŵr busnes gwael. Nid oedd hi ychwaith yn gefnogol i'w briodas ag Ann Berry!

Gŵr cwbl ddiflewyn ar dafod ydoedd J. E. Southall. Dyna paham mae'n destun edmygedd. Bu iddo esbonio drwy gyfrwng y Gymraeg yn *Y Geninen*, Gorffennaf 1901 ac Ionawr 1902, paham ei fod yn Grynwr. Yn bendifaddau, roedd yn ŵr o argyhoeddiad dwfn. Ebe ef: *'Nid diben moesol neu gymdeithasol yw amcan gwreiddiol cymdeithas grefyddol ond yn hytrach mae a wnelo'r Cristion â rhywbeth amgenach'.*

Yr hyn a geisia John Edward ei fynegi yw bod a wnelo Cristnogaeth yn ei hanfod *â'r*



*Dan Isaac Davies.* (*Hawlfraint: Llyfrgell Genedlaethol Cymru*)

*Bod anfeidrol a phur.* Llais Duw a glyw mewn distawrwydd a hyn a rydd iddo ddedwyddwch ac esmwythâd.

Tân angerddol dros ffydd y Crynwyr a'i harweiniodd i deithio dramor. Aeth ar deithiau i'r Almaen a Ffrainc ac yn gwmni iddo roedd gŵr o'r enw Max I. Reich. Cyn hyn, roedd John Edward yn aelod o'r Tŷ Cwrdd yn Fritchley, ond erbyn y flwyddyn 1912, tynnwyd ei enw oddi ar y rhestr. Fel 'na'n union yw'r dystiolaeth gerbron yn *Dictionary of Quaker Biography.* Fe'i diarddelwyd yn ôl pob golwg am nad oedd yn mynychu'r cyfarfodydd crefyddol yn ddigon rheolaidd. Dywedir yn ogystal nad oedd, *yn dangos digon o urddas tuag at y ffydd.* Roedd John Edward, gyda llaw, wedi ymuno â'r Cyfeillion yn Fritchley, Bournbroden, Birmingham, yn y flwyddyn 1894, a hynny ar ôl cais iddynt am aelodaeth yn 1882. Dywed Walter Loundes yn ei lyfr, *The Quakers of Fritchley* (1980), t.62 a t.148, bod J. E. Southall yn un o ymddiriedolwyr Tŷ Cwrdd Fritchley yn 1898 ac iddo hefyd am gyfnod byr yn 1899 fod yn Glerc Cyfarfodydd Cyffredinol y Tŷ Cwrdd. Yn y flwyddyn 1924 tynnwyd ei enw'n gyfan gwbl oddi ar Restr Aelodaeth y Crynwyr ar y sail ei fod *yn dal ati i wrthwynebu.* Gair cryf odiaeth yw *gwrthwynebu.* Ond beth yn wir a wrthwynebai? Ai'r hawl i deithio dramor gan ledaenu'r wybodaeth am ddulliau'r Crynwyr o addoli?

*(I'w barhau)*

## Rhagor am 'Oriel y Beirdd'

Trafodwyd Ellis Owen Ellis (Ellis Bryncoch, 1813-61), yr arlunydd medrus o Aber-erch, fwy nag unwaith ar dudalennau'r *Casglwr.* A gofynnwyd droeon



gan hwn a'r llall beth tybed a ddigwyddodd i'w brif waith, yn dwyn y teitl 'Oriel y Beirdd', sef darlun o tua chant o feirdd a llenorion y genedl ar ganfas yn mesur pedair troedfedd o hyd wrth wyth troedfedd o led, a brynwyd, yn ôl yr hanes, gan William Morris (Gwilym Tawe) am gan gini.

Hyd y gwn i, ni sylwodd yr un o'r rhai a fu'n trafod yr arlunydd a'i waith (a minnau yn eu plith!) fod darlun o'r 'Oriel' wedi cael ei atgynhyrchu fel wynebddalen rhifyn Ionawr 1917 o *Cymru* (O. M. Edwards) lle y dywedir fod 'y gwreiddiol yn Sefydliad Brenhinol Abertawe'.

Yna, ar dudalen 49 o'r un rhifyn o *Cymru*, fe ddywedir fod y copi o'r 'Oriel' wedi cael ei anfon at y Golygydd, '. . . trwy garedigrwydd Cadrawd', ac yna yn dilyn y sylw hwnnw fe ddywedir ymhellach yn rhifyn Mai 1918, t.183, dan y pennawd 'Gwŷr Eifionydd' fod Ellis Bryncoch wedi cyflawni amryw o gampau eraill, ac iddo gael ei gymryd yn wael yn fuan ar ôl gorffen ei 'Oriel', a marw ar Fai 17, 1861, yn 48 oed.

Gan ein bod yn awr yn gwybod na chafodd yr 'Oriel' ei hanfon i'r America yn niwedd y ganrif ddiwethaf, fel yr haerir ambell waith, hwyrach y gall rhywun sy'n gyfarwydd ag Abertawe ddweud wrthym beth yn union oedd/yw y Sefydliad Brenhinol, ac awgrymu'r un pryd beth tybed a allai fod wedi digwydd i'r 'Oriel'?

A chan fod (neu y bu) rhai o bapurau Cadrawd yn/wedi cael eu diogelu yn Llyfrgell Caerdydd, tybed a oes yno hefyd rywbeth sy'n taflu goleuni newydd ar ddirgelwch yr 'Oriel'?

## RHODDION

Gweneth Lilly, Llanfairfechan, £47.50. D. Jones, Blaenau Ffestiniog, £5. Rhodri Dafis, Abertawe, £2.50. Deri Tomos, Bethesda, £7.50. Eleri Morgan, Bangor, £10. Ofg Kilgar, Bae Colwyn, £10. Emyr Evans, Cheltenham, £2.50. Chris Grooms, Texas, £10. Ted Huws, Amlwch, £10. Elwyn Jones, Llandudno, £2.50. Dienw, £10. Bleddyn Jones, Y Groeslon, £5. Colin Hancock, Aberystwyth, £10. Gwyn Jones, Llanbedr DC, £7.50. Arwyn Thomas, Casnewydd, £2.50. J. G. Griffith, Pwllheli, £2.50. Tegwyn Harries, Exeter, £2.50.


sain

Canolfan Sain, Llandwrog
Caernarfon, Gwynedd
LL54 5TG
☎ 01286 831 111

**BRYN TERFEL** (SAIN 632 1988) **£10.00**
Promo feinyl Bryn Terfel Cyfrol I, Annette Bryn Parri, piano. Record hir gyntaf Bryn yn cynnwys 'Mab y Mynydd', 'Y Crwydryn', 'Dafydd y Garreg Wen'.

**GERAINT LÖVGREEN** (SAIN 951) **£5.00**
Promo feinyl 'Os Mêts' yn cynnwys 'Nid Llwynog oedd yr Haul'.

**GERAINT JARMAN £7.00**
Sengl 7" MACYM 1979. Ochr A: Gwesty Cymru; Ochr B: Mynd i Weld y Fran.

**EDWARD H. DAFIS £7.00**
Sengl 7' MACYM 3 1979. Ochr A: Breuddwyd Roc a Rôl; Ochr B. Smo Fi Ishe Mynd.

**Y CYRFF** (SAIN 1419P-B) **£10.00**
'Y Testament Newydd' feinyl 1987 yn cynnwys Mark a Paul Catatonia.

**Y CYRFF £7.50**
12" feinyl 'Cymru, Lloegr a Llanrwst'.

**BWCHADANAS** (SAIN 1306M-B) **£20.00** (Prin iawn)
'Cariad Cywir' record hir feinyl yn cynnwys Siân James, 1984.

**MEIC STEVENS** (SAIN 1312M-A) **£5.00**
'Lapis Lazuli', 1985, copi feinyl heb glawr.

**MEIC STEVENS** (SAIN 1273M-A) **£10.00**
'Gitâr yn y Twll Dan Star', 1983, copi feinyl.

**CRYSBAS £5.00**
'Draenog Marw', sengl 7", 1979, copi jukebox — yn cynnwys Bryn Fôn.

**CATATONIA £30.00** (Prin iawn)
7" Rough Trade Singles Club. Ochr A: Whale; Ochr B: You Can.

**LLYGOD FFYRNIG £2.00**
EP 7" NCB o'r Almaen yn cynnwys 'Merched Glan-llyn' heb ei rhyddhau o'r blaen, pedair cân sesiwn Sain Abertawe 1979.

**Cludiant 50c pob record**